

B+DELWYDDAN

Solar + Energy Storage

November / December 2024

B+DELWYDDAN

Storio Solar + Ynni

Tachwedd / Rhagfyr 2024



The Team

Y Tîm



Nick Bowen

Senior Project
Development Manager

Uwch Reolwr
Datblygu Prosiect



Vincent Ryan

Planner

Cynlluniwr



Kath Thomas

Community
Engagement

Ymgysylltu
Cymunedol



Who we are

- **Bodelwyddan Solar & Energy Storage Limited is part of Island Green Power.**
- Since 2013, we have become a leading developer of utility-scale solar projects and battery storage systems. We have successfully delivered over 34 solar projects worldwide with more than 1GW of energy capacity. This includes 17 in the UK and Ireland.
- In November 2022, Welsh Ministers granted consent for our **30MW Brynrhyd Solar Farm** in Carmarthenshire which, once constructed, will generate enough **renewable energy for over 10,600 homes a year.**



Pwy ydym ni

- **Mae Storïo Solar ac Ynni Bodelwyddan Cyfyngedig yn rhan o Island Green Power.**
- Ers 2013, rydym wedi dod yn ddatblygwr blaenllaw o brosiectau solar ar raddfa cyfleustodau a systemau storïo batri. Rydym wedi llwyddo i gyflawni dros 34 o brosiectau solar ledled y byd gyda mwy nag 1GW o gapasiti ynni. Mae hyn yn cynnwys 17 yn y DU ac Iwerddon.
- Ym mis Tachwedd 2022, rhoddodd Gweinidogion Cymru ganiatâd ar gyfer ein **Fferm Solar Brynrhyd 30MW** yn Sir Gaerfyrddin a fydd, unwaith y bydd wedi'i hadeiladu, yn cynhyrchu digon o ynni **adnewyddadwy ar gyfer dros 10,600 o gartrefi'r flwyddyn.**



What we do

We deliver renewable energy solutions that create lasting value for the communities we serve, protecting the environment while fostering economic growth and energy independence.

- In the UK, we are contributing to the goal of becoming a clean energy superpower and **achieving net zero by 2050**. We are also contributing to the Welsh Government's net-zero goals.
- We are a community-led developer and will consult closely with local communities, stakeholders and policy makers throughout the project planning process to understand concerns then use feedback to improve our designs.




Yr hyn a wnawn

Rydym yn darparu atebion ynni adnewyddadwy sy'n creu gwerth parhaol i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, gan ddiogelu'r amgylchedd tra'n meithrin twf economaidd ac annibyniaeth ynni.

- Yn y DU, rydym yn cyfrannu at y nod o ddod yn archbŵer ynni glân a **chyflawni sero net erbyn 2050**. Rydym hefyd yn cyfrannu at nodau sero-net Llywodraeth Cymru.
- Rydym yn ddatblygwr sy'n cael ei arwain gan y gymuned a byddwn ni'n ymgynghori'n agos â chymunedau lleol, rhanddeiliaid a llunwyr polisi drwy gydol y broses cynllunio prosiect i ddeall pryderon ac yna defnyddio adborth i wella ein dyluniadau.

Project overview

- Bodelwyddan Solar & Energy Storage will consist of a solar farm with a **110MW export connection** and a battery storage (BESS) site with a **110 MW import connection**.
- The two sites are separate but will be connected via **underground cables**, the route of which is currently being refined.
- The point of connection is **Bodelwyddan substation** (proposed to be extended by National Grid) which is adjacent to the BESS site.
- Grid connection date – October 2029/2030.



Trosolwg o'r prosiect

- Bydd Storïo Solar ac Ynni Bodelwyddan yn cynnwys fferm solar gyda **chysylltiad allforio 110MW** a safle storïo batris (BESS) gyda **chysylltiad mewnforio 110 MW**.
- Mae'r ddau safle ar wahân ond byddant yn cael eu cysylltu trwy **geblau tanddaearol**, y mae eu llwybr yn cael ei fireinio ar hyn o bryd.
- Y pwynt cyswllt yw **is-orsaf Bodelwyddan** (y bwriedir ei hymestyn gan y Grid Cenedlaethol) sydd gerllaw safle BESS.
- Dyddiad cysylltiad grid – Hydref 2029/2030.





Draft red line boundary plan

Cynllun ffin llinell goch drafft

Solar Site

Safle Solar



Solar site



The solar site is located at **Land at Rhuddlan Road**.



It has an overall area of **153.79 hectares**.



The solar project could save up to **35,569 tonnes** of CO2 per year and generate up to **110MW** of electricity, the equivalent of providing enough power to meet the annual electricity demands of **26,657 homes**.



There is an existing solar farm in the southern section of the site which has been operational since **2015**.



According to our soil surveys, **over 95%** of the site is in on **Grade 3b or below** agricultural land and as such is not farmed as BMV land.



There will be opportunities for significant ecological enhancements through a **landscaping and biodiversity strategy**.

Safle solar



Mae'r safle solar wedi ei leoli ar **Dir yn Ffordd Rhuddlan**.



Mae ganddi arwynebedd cyffredinol o **153.79 hectar**.



Gallai'r prosiect solar arbed hyd at **35,569 tonnell** o CO2 y flwyddyn a chynhyrchu hyd at **110MW** o drydan, sy'n cyfateb i ddarparu digon o bŵer i fodloni gofynion trydan blyneddol **26,657 o gartrefi**.



Mae fferm solar yn rhan ddeheuol y safle yn barod sydd wedi bod yn weithredol ers **2015**.



Yn ôl ein harolygon pridd, mae **dros 95%** o'r safle ar **Radd 3b neu islaw** tir amaethyddol ac felly nid yw'n cael ei ffermio fel tir BMV.



Bydd cyfleoedd ar gyfer gwelliannau ecolegol sylweddol trwy **strategaeth tirweddu a bioamrywiaeth**.



Draft red line boundary plan

Cynllun ffin llinell goch drafft

BESS Site



Safle BESS

Battery storage

 The Battery Energy Storage Systems (BESS) site is located on Land adjacent to the west of Bodelwyddan substation, south of St Asaph Business Park.

 It has an overall area of **6.52 hectares**.

 The BESS will be able to store up to **110MW** of electricity during times of high renewable energy generation (such as solar and wind) and discharge it when demand is high or renewable generation is low.

 The site is located on **Grade 3b** and below agricultural land (**not BMV**).

 The BESS will be connected to the solar site by circa **5km** of cabling. The cable route is yet to be determined, with assessments still ongoing.

Storio batri

 Mae safle Systemau Storio Ynni Batri (BESS) wedi'i leoli ar Dir gerllaw is-orsaf Bodelwyddan, i'r de o Barc Busnes Llanelwy.

 Mae ganddi arwynebedd cyffredinol o **6.52 hectar**.

 Bydd y BESS yn gallu storio hyd at **110MW** o drydan ar adegau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy uchel (megis solar a gwynt) a'i ollwng pan fo'r galw'n uchel neu pan fo cynhyrchiant adnewyddadwy yn isel.

 Mae'r safle wedi ei leoli ar **Radd 3b** ac islaw tir amaethyddol (**nid BMV**).

 Bydd y BESS yn cael ei gysylltu â'r safle solar gan tua **5km** o geblau. Nid yw llwybr y ceblau wedi'i benderfynu eto, ac mae asesiadau'n dal i fynd rhagddynt.

Consultation

- We are committed to working with the community to develop the proposals and have put together a consultation plan to best achieve this.
- With this in mind, we will be launching a non-statutory consultation early in the new year for residents and local stakeholders to give their initial feedback.
- This will be followed by a statutory consultation of at least 42 days, as specified in the DNS guidance, which we intend to launch in the **summer of 2025**.

Ymgynghoriad

- Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r gymuned i ddatblygu'r cynigion ac rydym wedi llunio cynllun ymgynghori i gyflawni hyn orau.
- Gyda hyn mewn golwg, byddwn ni'n lansio ymgynghoriad anstatudol yn gynnar yn y flwyddyn newydd er mwyn i drigolion a rhanddeiliaid lleol roi eu hadborth cychwynnol.
- Dilynir hyn gan ymgynghoriad statudol o 42 diwrnod o leiaf, fel y nodir yn y canllawiau DNS, y bwriadwn ei lansio yn **ystod haf 2025**.

Early engagement

Consultation launch: **Monday 13 January**

- **Newsletter** sent out to residents in approximately 2000 addresses.
- **Project website with online feedback form.**
- **Adverts** placed in local media outlets.
- **Two consultation events** which will take place on w/c 27 January 2024. Our aim is to hold on event in Bodelwyddan Community Centre and one in Towyn and Kinmel Bay Community Resource Centre.
- Consultation closes on **Monday 10 February.**


Ymgysylltu cynnar

Lansio'r ymgynghoriad: **Dydd Llun 13 Ionawr**

- Anfonwyd **cylchlythyr** at drigolion mewn tua 2000 o gyfeiriadau.
- **Gwefan y prosiect gyda ffurflen adborth ar-lein.**
- **Hysbysebion** yn cael eu gosod mewn cyfryngau lleol.
- **Dau ddigwyddiad ymgynghori** a fydd yn cael eu cynnal ar w/d 27 Ionawr 2024. Ein nod yw cynnal digwyddiad yng Nghanolfan Gymunedol Bodelwyddan ac un yng Nghanolfan Adnoddau Cymunedol Tywyn a Bae Cinmel.
- Daw'r ymgynghoriad i ben **ddydd Llun 10 Chwefror.**




Consultation zone



- Total - 2794
- Residential properties - 2524
- Businesses - 270

Parth ymgynghori

- Cyfanswm - 2794
- Eiddo preswyl - 2524
- Busnesau - 270





Indicative timeline

Amserlen ddangosol

December 2024

Initial pre-application engagement with LPAs and PEDW (ongoing), and EIA scoping

Rhagfyr 2024

Ymgysylltiad cyn ymgeisio cychwynnol ag ACLlau a PEDW (parhaus), a chwmpasu EIA

January – February 2025

4-week non-statutory consultation

Ionawr – Chwefror 2025

ymgyngoriad anstatudol 4 wythnos

Summer 2025

6-week statutory consultation

Haf 2025

ymgyngoriad statudol 6 wythnos

Late 2025

DNS application submission

Diwedd 2025

cyflwyno cais DNS

Late 2026 / Early 2027

Potential PEDW decision (based on current anticipated consenting timescales)

Diwedd 2026 / Dechrau 2027

Penderfyniad PEDW posibl (yn seiliedig ar yr amserlenni caniatáu a ragwelir ar hyn o bryd)

Late 2027 / Early 2028

Construction period of circa 12-24 months

Diwedd 2027 / Dechrau 2028

Cyfnod adeiladu o tua 12-24 mis

2029

Agreed grid connection. Earliest possibility for project to be fully operational

2029

Cysylltiad grid y cytunwyd arno. Y posibilrwydd cynharaf i'r prosiect fod yn gwbl weithredol



Contact details

Manylion cyswllt

 bodelwyddansolar.co.uk

 contact@bodelwyddansolar.co.uk

 01745 770513

 **Freepost
GRASSHOPPER
CONSULT** (no
stamp or further
address required)

 **Rhadbost
GRASSHOPPER
CONSULT** (nid
oes angen
stamp na
chyfeiriad
pellach)